# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

4ydd o Fawrth 2020

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am 7:00 yr hwyr Nos Fawrth ,10fed o Fawrth 2020 yn Ystafell Glaslyn , Y Ganolfan, Porthmadog.

**RHAGLEN**

1. **Ymddiheuriadau.**

2. **Adroddiad y Cadeirydd.**

3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd diwethaf (11eg o Chwefror 2020).**

4. **Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

5. **Materion i'w dwyn gerbron :**

   - Cais am gyfraniad Y Ganolfan - mater wedi ei ohirio mis diwethaf (cyfrifon/cais gennych).
   - Cais am gyfraniad Neuadd Goffa Tremadog – wedi ei ohirio mis diwethaf (cyfrifon gennych / cais ynghlwm).
   - Cyng. Gareth Williams - cynnig ynglŷn â phroblemau trafnidiaeth yng Nghlog y Berth.
   - Cyng. Richard Williams – cynnig cysylltu efo Cyngor Gwynedd i ddatgan diddordeb mewn gwneud cais am grant Visit Wales. (Maynlion ymghlwm).
   - Cyng. Carol Hayes - cynnig ysgrifennu at Michael Strain i ofyn am eglurhad o'r canlynol (wedi ymddangos yn Llanw Llyn)."Bydd y pwyllgorau apêl yn seiliedig ar y Cynghorau Cymuned a Thref. Bydd y rheini yn gyfrifol am drefnu nifer o weithgareddau cymunedol i gyrraedd nod ariannol o £400,00".
   - Cyng. Nia Jeffreys - cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn mynegi ein pryderon dwys am y gwasanaeth fasciwlar yn Ysbyty Glan Clwyd a gofyn am ail sefydlu'r gwasanaeth yn Ysbyty Gwynedd ar frys.
   - Cyng. Carol Hayes - cynnig fod Cyngor Tref Porthmadog yn cysylltu gyda "Chwarae Teg" i ofyn am fanylion am "Ymgyrch Placiau Porffor" gyda'r nod o osod plac yn y dref i goffau Mair Eifion (1846 – 1882) barddones o Borthmadog.

**6. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.** *(Dyddiad cau Rhaglen mis Ebrill 2020 – 7fed o Ebrill 2020).*

**7. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm**).**

*Clerc/Clerk : Mrs Glenda Burke, 44 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766512683*
*e-bost / e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

# *CYNGOR TREF PORTHMADOG*

**8. Gohebiaeth :**

1) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru – Gwasanaethau bws Ysbyty Alltwen (ymateb i lythyr rhaglen Ionawr , cof. 201).
2) Swyddfa Arwchilio Cymru – Datganiad i'r Wasg.
3) Cadw Cymru'n Daclus – Gwanwyn Glân Cymru.
4) Un Llais Cymru – Aelodaeth 2020 – 2021.
5) Panel Annibynnol Cymru – Adroddiad Blynyddol 2020/2021 (copi llawn ar y bwrdd).
6) Sioned Williams, Pennaeth Economi, CG – Brexit , cyngor i drigolion a busnesau.
7) Adran Tai ac Eiddo, CG – Newidiadau i bolisi gosod tai gyffredin Gwynedd

**9. Materion Ariannol :**

**Biliau i'w talu :**

| | | |
|---|---|---|
| Glenda Burke – cyflog Clerc mis Chwefror 2020 | = | £599.00 |
| Cyllid a Thollau EM – treth incwm ac yswiriant gwladol Chwefror 2020 | = | £155.00 |
| Yr Wylan – hysbyseb am gynghorydd ward dwyreiniol | = | £16.00 |
| Ashley Hughes Cyf -papur llungopïo - 5 bocs | = | £83.94 |
| G L Jones Playground Ltd – gwaith ar offer Gae Chwarae Bodawen | = | £1,138.80 |
| B2 Docucentric - costau llungopïo hyd at 4.2.20 ac ymlaen i 30.4.20 | = | £50.15 |
| Un Llais Cymru – aelodaeth 2019/2020 | = | £792.00 |
| Glenda Burke - inc ar gyfer y printer Chwefor (£20.49) | | |
| hanner rent llinell ffôn a we 26.2.2020 - 25.3.2020 (£32.75) | = | £53.24 |
| Cyng.Simon Brooks – lwfans Cynghorydd 2019/2020 | = | £120.00 |
| Cyng.Alwyn Gruffydd – lwfans Cynghorydd 2019/2020 | = | £120.00 |

**Derbyniadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Llog Banc Chwefror 2020 | = | £5.76 |

**10. Ceisiadau Cynllunio**

**i)** **C20/0112/44/LL -** Newid defnydd siop llawr gwaelod bresennol i swyddfeydd a defnyddio lloriau uwch fel tŷ aml-feddianaeth 3 ystafell wely.
11 Stryd Y Banc, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AA.

**ii)** **C20/0077/44/LL -** Newid defnydd o delicatessan (A1) i tearoom (A3)
Y Bwtri, 78 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9NW.

**iii)** **C20/0127/44/LL -** Cais ar gyfer codi estyniad unllawr, ports ac estynnu'r balconi presennol ynghyd a darparu ffenestri cromen a ffenestri to ynghyd a newidiadau eraill.
Croglofft Ffordd Garth, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9TW

*Clerc/Clerk : Mrs Glenda Burke, 44 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766512683*
*e-bost / e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*

**iv)** **C20/0014/44/CR** - Amnewid arwydd presennol di-oleuedig gydag un wedi eu goleuo'n fewnol.
Spar Ltd, Spar Stores, 13 - 15 Sgwâr Y Farchnad, Tremadog, Gwynedd,LL49 9RB.

**v)** **C19/1073/44/LL –** Addasu llawr gwaelod meddygfa bresennol i 4 fflat hunangynhaliol.
Cwrt Coffa, Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9HD.

Yn gywir,

**Glenda Burke**
**Clerc**

*Clerc/Clerk : Mrs Glenda Burke, 44 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766512683*
*e-bost / e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*